



Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd

Ardal Penmaenrhos

Gwerthusiad Adeiladau Addas i'r Pwrpas

Crynodeb Gweithredol

Gorffennaf 2012

Cynnwys	Tudalen
1.0 Cyflwyniad	3
2.0 Ardal Penmaenrhos a Phroffiliau Ysgol	5
3.0 Datblygu Dewis	7
4.0 Dull Gwerthuso Dewis	8
5.0 Gwerthuso Dewis	10
6.0 Canlyniadau Gwerthusiad	14
7.0 Casgliad	17
8.0 Argymhelliad	19

1.0 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd dros y tair blwynedd diwethaf. Arweiniodd hyn at gyhoeddi "*Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy*" a'r "*Cynllun Gweithredu*" cysylltiedig yn Hydref 2010, ar ôl i'r Cabinet ei fabwysiadu.

Cytunodd y Cabinet hefyd i:

- i) ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau o fewn y Cynllun Gweithredu a,
- ii) chynnal cyfarfodydd rhanddeiliad gyda'r ardaloedd hynny a nodwyd ar gyfer "adolygiad mewn dwy flynedd".

Bydd casglu gwybodaeth allweddol yn cynnwys asesiad effaith ar iaith, cydraddoldeb, cludiant, ardal ac adeiladau addas i'r pwrpas er mwyn cyfarwyddo dadansoddiad mantais aml brawf.

Bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal ymhob ysgol mewn ardal dan adolygiad dechreuol i gyflwyno'n fanylach y dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal a chanlyniad y gwerthusiad dewis.

Oherwydd newidiadau i Raglen Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru, ym Medi 2011, cytunodd Cabinet Conwy i oedi ac adolygu Cynllun Gweithredu Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd (CMYC) fel y cytunwyd yn flaenorol (Hydref 2010).

O ganlyniad i oedi ac adolygiad, cyflwynwyd a chymeradwywyd amserlen "Cynllun Gweithredu Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy" wedi'i diweddarau gan y Cabinet ar 8 Tachwedd 2011.

Arweiniodd hyn at alinio Cynllun Gweithredu CMYC a Rhaglen Amlinelliad Strategol yr Awdurdod a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 18 Tachwedd 2011 a chafodd ei chymeradwyo mewn egwyddor yn Rhagfyr 2011.

Wedi hynny, bydd y rhaglen amlinellol strategol arfaethedig yn cael ei herio gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno am achos busnes i Lywodraeth Cymru. Byddai'r rhaglen lawn, pe bai'n cael ei chymeradwyo ar bob cam yn cael ei gweithredu rhwng 2014 a 2020.

1.2 Gyrwyr Allweddol

Gan gymryd i ystyriaeth ddyheadau Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu nifer o yrwyr allweddol sy'n llunio briff ar gyfer pob ardal a datblygwyd y dewisiadau canlyniad i gyflawni nod y rhaglen:

- parhau i wella safonau addysgol
- sicrhau bod ein holl adeiladau'n 'addas i'r pwrpas'
- lleihau lleoedd gwag yn ein hysgolion i lefel derbynol
- sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad cydradd at adnoddau.

1.3 Anghenion Creiddiol

Mae Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif yn ymroddiad Un Gymru ac yn gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol.

Mae'n rhaglen tymor hir â buddsoddiad strategol mawr gyda'r nod o greu cenhedlaeth o ysgolion 21 ganrif yng Nghymru.

Bydd y rhaglen yn:

- cefnogi polisi "Un Gymru" mewn perthynas ag ysgolion
- gyrru gwelliannau mewn safonau addysgol trwy fuddsoddi mewn ysgolion
- alinio a thrawsnewid ôl 16 a buddsoddiad gwasanaeth cyhoeddus ehangach ac mae'n anelu at fod yn gydlynedig ar draws ffiniau gweinyddol a,
- chynllunio i greu amgylchedd o'r safon uchaf i athrawon addysgu ac i ddisgyblion ddysgu wedi'i gefnogi gan TGC, sydd o ansawdd uchel, wedi'i gynllunio ar gyfer cynaliadwyaeth, wedi'i adeiladu o fewn amser, am bris rhesymol i'r trethdalwr ac wedi'i gynnal yn iawn yn ystod ei oes.

2.0 Proffil Ardal ac Ysgol Penmaenrhos

2.1 Ardal Penmaenrhos

Mae anheddiad Penmaenrhos wedi'i gynnwys yn bennaf yn wardiau Colwyn a Llysfaen ar hyd Lôn Peulwys. Mae dwy ysgol sy'n darparu addysg i ddisgyblion cynradd yn yr ardal, sef Ysgol Penmaenrhos (babanod) ac Ysgol Tan y Marian (iau). Mae'r ysgolion tua 0.4 milltir oddi wrth ei gilydd.

Poblogaeth y ddwy ward yw 7,050. Cyfanswm y tai yn nalgylch y ddwy ysgol yw 1,337 gyda 3,488 o dai o fewn milltir i Ysgol Tan y Marian a 3,789 o dai o fewn milltir i Ysgol Babanod Penmaenrhos.

Ers cychwyn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn 2007, gorffennwyd 45 o anheddau newydd yn ward Colwyn a saith yn Llysfaen. Mae dau safle mawr arall hefyd gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer 48 o anheddau yn ward Colwyn.

Yn seiliedig ar raddfeydd cwblhau blaenorol, byddem yn amcanu ar tua 70 anedd yn cael eu hadeiladu yng Ngholwyn a 13 yn Llysfaen ar safleoedd y gobeithir eu cael ar gyfer adeiladu yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun.

Yn wardiau Colwyn a Llysfaen, cynigir 355 o anheddau ar safleoedd newydd dros gyfnod y CDLI. Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi'u lleoli ar safle fferm Tŷ Mawr (ward Llysfaen) gyda 255 anedd gan gynnwys cytundeb Adran 106.

Cynigir 70 o anheddau ychwanegol ym mhentref Llysfaen, ar ddau safle a 30 anedd yn Ysgol y Graig yng Ngholwyn yn llunio gweddill y dyraniadau newydd yn yr ardal.

Mae'r potensial i 24 o fabanod yn gysylltiedig â'r anheddau ychwanegol hyn yn nalgylch Penmaenrhos a'r potensial i 32 disgybl iau yn gysylltiedig â'r anheddau newydd yn nalgylch Tan y Marian.

Mae'r dewisiadau arfaethedig a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys y potensial i helaethiad pellach i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn galw o ganlyniad i'r datblygiadau hyn.

2.2 Proffil Ysgol

Ysgol Babanod Penmaenrhos

Mae lle i 81 disgybl yn yr ysgol. Y boblogaeth ddisgyblion bresennol yw 46 (ystadegau Ionawr 2012) heb gynnwys lleoedd meithrin. Yn bresennol mae 33.5% o leoedd yn wag a rhagwelir y bydd y sefyllfa hon yn aros yn statig hyd 2017.

Yn gyffredinol mae'r adeilad yn 135 metr sgwâr yn rhy fawr, yn bennaf mewn manau nad ydynt yn ddosbarth, gan gynnwys cegin, toiledau a choridorau etc.

Dywed Cynllun Rheoli Asedau'r Gwasanaeth bod mwyafrif yr adnoddau yn cyrraedd cyflwr cyffredinol Gradd B, a ddehonglwyd fel "gweithredol ond gyda mân anghenion cynnal hanfodol".

Mae gan yr adeilad a'r safle presennol rai diffygion sy'n cynnwys:

- problemau mynediad DGA i'r llawr cyntaf
- mynediad i gerbydau a cherddwyr wedi'i gyfyngu gyda ffyrdd ar dair ochr
- dim lle dynodedig i'r anabl barcio
- canfuwyd rhai defnyddiau a allai gynnwys asbestos
- y gegin angen ei huwchraddio / diweddarau
- effeithlonrwydd ynni gwael
- nid yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu Cyfredol mewn meysydd fel acwsteg a golau dydd
- safle cyfyng a bychan.

Ysgol Tan y Marian

Ysgol iau cyfrwng y Saesneg yn gwasanaethu disgyblion 7 - 11 oed yn bennaf. Mae lle i 120 o ddisgyblion er bod y nifer ar y gofrestr bresennol lawer yn is - 56 (ystadegau Ionawr 2012)

Mae 50% o leoedd yn yr ysgol yn bresennol yn wag a'r rhagolygon yn awgrymu y bydd y ffigwr yn gostwng i 46% erbyn 2017 gydag amcan o 65 disgybl.

Dywed Cynllun Rheoli Asedau'r Gwasanaeth bod y mwyafrif o adnoddau'n cyrraedd cyflwr cyffredinol Gradd B, a ddiffiniwyd fel "gweithredol ond gyda mân anghenion cynnal hanfodol".

Mae gan yr adeilad a'r safle presennol rai diffygion sy'n cynnwys:

- lleoliad gwael mynedfa'r ysgol
- diffyg rhai adnoddau megis ystafell feddygol
- y bwyler angen ei ddiweddarau / uwchraddio
- y gegin angen ei uwchraddio / diweddarau
- effeithlonrwydd ynni gwael
- nid yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu Cyfredol mewn meysydd fel acwsteg a golau dydd.

3.0 Datblygu Dewis

Dewisiadau a Ystyriwyd

Cyn cyhoeddi dogfen Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy yr Awdurdod yn Hydref 2010, cynhaliwyd nifer o astudiaethau sgopio i gyfarwyddo'r rhai oedd yn cymryd rhan yn y broses.

Cynhwyswyd canlyniadau'r ymarfer canfod dewisiadau mewn Dogfen Werthuso Dewis (adrannol mewnol) a gynhyrchwyd ym Mai 2010 a nododd y ddogfen hon nifer o ddewisiadau ymarferoldeb a oedd yn llunio sylfaen dewisiadau strategol.

Yn ystod ymarfer canfod dewisiadau Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd Gwasanaethau Addysg nodwyd y strwythurau canlynol er mwyn i ysgolion gyflwyno addysg yn y dyfodol yng Nghonwy.

Sefydlu "Ysgol Gynradd"

Mae hyn yn golygu cyfuno ysgol iau a'i hysgol babanod porthi i lunio ysgol gynradd gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol.

Sefydlu ysgol ardal ar un safle mewn ardal ddaearyddol ddynodedig.

Mae hyn yn golygu un ysgol ar un safle ar gyfer yr ardal. Byddai hyn yn golygu cau'r holl ysgolion yn yr ardal a sefydlu un ysgol mewn ardal ddaearyddol ar un safle (byddai hyn yn golygu safle sy'n bodoli neu newydd. Byddai'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal gyfan.

Sefydlu ysgol ardal ar sawl safle yn yr ardaloedd daearyddol dynodedig.

Y tri Dewis Strategol yw:

Dewis 1 – Cael ei arwain gan y gyrwyr – ysgol ardal ar un safle.

Dewis 2 - Cynnal yr ysgolion presennol ar y ddau safle sy'n bodoli.

Dewis 3 - Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli.

Datblygwyd y dewisiadau strategol ymhellach ar gyfer y ddwy ysgol yn ardal Penmaenrhos a chynigiwyd y dewisiadau canlynol:

Dewis 1 – Ysgol gynradd yn Ysgol Tan y Marian.

Dewis 2 - Cynnal Ysgol Tan y Marian ac Ysgol Babanod Penmaenrhos ar y ddau safle sy'n bodoli.

Dewis 3 - Ysgol gynradd yn Ysgol Tan y Marian ac Ysgol Babanod Penmaenrhos ar ddau safle sy'n bodoli.

Sylwadau ar y Dewisiadau

Dewis 1 cyfuno'r ddwy ysgol sy'n bodoli fel un ysgol gynradd ar un safle.

Mae Dewis 2 a 3 yr un fath o safbwynt adeiladau addas i'r pwrpas, gan mai'r gwahaniaeth yw'r trefniadau llywodraethu ac nid strwythur yr ysgolion.

Mae pob dewis yn trin y lleoedd sbâr sydd ar gael trwy fân ail gyflunio i ddarparu adnoddau sydd ar goll, a hefyd darparu llety o faint a lleoliad mwy priodol a thrin problemau mynediad.

4.0 Dull Gwerthusiad Dewis

Matrics Sgorio

Edrychodd y matrics sgorio ar amrywiaeth eang o feini prawf gwerthuso a oedd yn cael eu sgorio a'u tablu ar gyfer pob dewis. Rhoddwyd gwerth o rhwng 1 a 5 i bob maen prawf gyda sgôr uwch yn cynrychioli mwy o gydymffurfio â'r anghenion dymunol.

Mae'r matrics yn cynnwys nifer o feini prawf amrywiol sy'n cynnwys dadansoddiad safle, dylunio, technegol ac ariannol trwyadl gan gynnwys:

- cael y safle
- canllaw Bwletin Adeiladu
- perygl o lifogydd a thir/llygru
- maint y safle
- cymhlethdod gwedd
- cydymffurfio â BREEAM
- hyblygrwydd a phrofiad yn y dyfodol
- cydymffurfio a rheoliadau ysgol
- effeithlonrwydd ynni a gallu gwasanaeth
- mynediad i'r safle ac anghenion DGA

Paratowyd costau cymharu ar gyfer pob dewis a chyfrifwyd y rhain gan ddefnyddio Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladu'r Royal Institution of Chartered Surveyors.

Mae'r gwasanaeth yn darparu costau adeiladu presennol ar gyfer amrywiaeth o adeiladu gan gynnwys adeiladau addysgol sy'n cael eu haddasu gan faint, topograffi a lleoliad.

Mae'r costau sylfaen hyn wedi'i haddasu i adlewyrchu ffactorau safle penodol ac mae ystyriaethau'n cynnwys:

- cael/cael gwared â safle
- ffioedd proffesiynol a statudol
- gwagu/lle dros dro
- costau BREEAM
- dodrefn, gosodiadau, offer a TGC

- dyrannu risg
- chwyddiant

Mae'r gwerthusiadau'n cynnwys Gwerth Net Presennol (GNP) a ddefnyddiwyd i gymharu costau â manteision sy'n digwydd dros gyfnod o 30 mlynedd.

Mae GNP yn cynnwys graddfa disgownt o 3.5% sy'n cael ei ddefnyddio i drosi pob cost a mantais o wahanol gyfnodau i "werthoedd heddiw" at bwrpasau cymharu.

Mae gwerthusiad ariannol a gwerthusiad yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM "Appraisal and Evaluation in Central Government".

Mae Dewis 1 wedi'i gyfrifo ar sail rhaniad 50:50 rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae Dewis 2 a 3 wedi'u cyfrifo ar sail cyfraniad 100% gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y sail nad yw'r Awdurdod yn credu y byddai'r dewisiadau hyn yn cymhwyso am arian Llywodraeth Cymru gan nad ydynt yn cyfarfod meini prawf Ariannu Ysgolion 21 Ganrif.

5.0 Gwerthusiad Dewis

Mae tri dewis ar gyfer Ardal Penmaenrhos Area sy'n defnyddio'r ddau safle sy'n bodoli, un ai fel cyfuniad ar un o'r safleoedd hyn neu gadw'r ddau safle.

Dewis 1 Un Ysgol Gynradd ar un safle (safle Ysgol Tan y Marian)

Mae'r dewis hwn yn cyfarfod anghenion dewis strategol sy'n cael ei arwain gan y gyrrwyr gydag ysgol ardal ar un safle gan gyfuno ysgol iau a'i hysgol babanod porthi i lunio un ysgol gynradd o dan un pennaeth ac un corff llywodraethol.

Mae safle Ysgol Tan y Marian yn ddigon mawr ac wedi'i lleoli gyda'r hyblygrwydd i gael ei helaethu yn y dyfodol.



Figwr 1 – Llun o'r ysgol a'r safle sy'n bodoli

Estynnwyd yr adeilad i ddarparu dosbarthiadau ychwanegol, meithrinfa a mynedfa newydd.

Symudwyd y brif fynedfa i'r pen dwyreiniol ble mae swyddfa'r pennaeth, y dderbynfa, y swyddfa gyffredinol a'r ystafell feddygol. Ail drefnwyd yr adnoddau cymdeithasol er hwylustod y trefniant hwn heb gyfaddawdu angen yr ardal.

Mae hyn yn darparu un fynedfa gyffredin a rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i'r ysgol.

Ail leolwyd ystafell yr athrawon, ADY/celf/technoleg bwyd a'r llyfrgell i fannau mwy addas i gyfarfod anghenion un ysgol.



Ffigur 2 – Cynllun Arfaethedig ‘Ysgol Gynradd’ ar safle Ysgol Tan y Marian

Mae nodweddion eraill a ddangosir yn Ffigur 1 yn cynwys lle gemau, cynefin, manau chwarae meithrin y tu ôl i'r man addysgu meithrin a pheth gwelliannau tirweddu.

Mae lle i godi dau ddosbarth pellach ym mhen yr adeilad pe bai angen yn y dyfodol i gyfarfod y galw pe codid mwy o dai.

Dewis 2 Cynnal yr Ysgolion sy'n Bodoli ar y Ddau Safle a Dewis 3 Ysgol Ardal ar y Ddau Safle sy'n Bodoli

Mae'r dewisiadau hyn yn cadw'r cydbwysedd yn nhermau'r adeiladau'r ddwy ysgol sy'n bodoli a'r tir o'u hamgylch.

Bydd cynllun pob ysgol yn cael ei ail drefnu i wella'r defnydd o ofod ac i ddod dros broblemau posibl gyda mynediad.

Yn Ysgol Babanod Penmaenrhos, mae'r ystafell athrawon ar y llawr cyntaf yn cael ei ail leoli i'r llawr isaf i gyfarfod anghenion DGA, gan adael y llawr uchaf ar gyfer storio.

Ar y llawr isaf, mae un o'r dosbarthiadau wedi'i ail ddynodi fel ystafell gerdd / llyfrgell gyda'r ystafell TGC / cerdd bresennol yn dod yn ystafell athrawon a'r llyfrgell yn dod yn ystafell feddygol newydd.

Yn Ysgol Tan y Marian, collir un dosbarth ar gyfer lle anaddysgol gan gynnwys ystafell feddygol, swyddfa gyffredinol ac ystafell reprograffig.

Bydd yr ystafell gelf /technoleg bwyd yn cael ei hail gynllunio i ddarparu ystafell gelf /technoleg bwyd llai ac ystafell athrawon sy'n cymryd lle llyfrgell.

Mae'r ystafell athrawon gwreiddiol yn dod yn ystafell i'r pennaeth ger y brif fynedfa sy'n aros yn y lleoliad presennol.

Mae'r newidiadau hyn yn gyffredinol yn sicrhau bod lle yn cyfarfod anghenion ar draul dosbarthiadau sbâr.



Ffigwr 3 – Cynllun Cynnal yr Ysgol Bresennol/Ysgol Ardal ar y ddwy safle sy'n bodoli safle (Ysgol Babanod Penmaenrhos)



Ffigwr 4 - Cynllun o'r ysgol bresennol arfaethedig/Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli (Ysgol Tan y Marian)

6.0 Canlyniadau Gwerthuso

Crynodeb

Ar ôl gwerthusiad manwl o'r Dewisiadau, rydym wedi tablu'r canlyniadau matrics a chanlyniadau ariannol ar gyfer y gymhariaeth isod:

Dewis	Dewis Enw	Sgôr Matrics	Gwerth Net Presennol	Cost Adeiladu	Cost Prynu
1	Ysgol Gynradd ar safle Ysgol Tan y Marian	125	15,045,250	1,216,872	Dim
2	Cynnal yr ysgolion presennol ar y safleoedd sy'n bodoli	122	16,182,870	452,764	Dim
	Un ysgol				

3	ar ddau safle sy'n bodoli	122	15,304,180	452,764	Dim
---	---------------------------	-----	------------	---------	-----

Ffigwr 5 - Canlyniadau Gwerthuso wedi'u Tablu

Dadansoddiad o Ganlyniadau Matrics

Mae'r gwerthusiad yn gosod y dewisiadau yn y drefn ganlynol:

- Dewis 1 Un Ysgol Gynradd
- Dewis 2 Cynnal yr ysgolion presennol ar y safleoedd sy'n bodoli (Gweithglwm)
- Dewis 3 Un ysgol ar ddau safle sy'n bodoli (Gweithglwm)

O'r tri dewis mae'r canlyniadau'n awgrymu mai Dewis 1 sydd ar y blaen ac er ei fod yn cael un sgôr o bump ar y meini prawf, cyflawnodd sgoriau uwch ar y naw maen prawf arall.

Mae Dewis 1 yn cynnwys elfen o adeiladu o'r newydd ac felly wedi cael mwy o gredyd ar gyfer y meini prawf hynny sy'n cael eu heffeithio gan adeiladu o'r newydd:

- aildefnyddio safle neu safle newydd
- hyblygrwydd ar gyfer newid yn y dyfodol
- effeithlonrwydd ynni
- arloesol mewn cynllunio
- risg adeiladu cysylltiedig

I'r gwrthwyneb mae Dewis 2 a 3 yn sgorio'n is oherwydd nad oes adeilad newydd ac nid oes fawr gyfle i ennill credyd mewn perthynas â BREEAM ac effeithlonrwydd ynni.

Canlyniadau Ariannol

Mae gan y gwerthusiad ariannol ddau brif yrrwr, cost adeiladu amcanedig a chost lawn perchnogaeth a fynegwyd fel cyfrifiad net gwerth presennol.

Paratowyd cost adeiladu amcanedig pob dewis gan gymryd i ystyriaeth y safle, cyfyngiadau, cynigion gwedd a chynllunio.

Dewis 1 Un ysgol gynradd yn Nhan y Marian £1,216,872

Dewis 2 Cynnal yr ysgolion presennol ar y safleoedd sy'n bodoli £452,764

Dewis 3 Un ysgol ar ddau safle sy'n bodoli £452,764

Mae'r costau hyn yn adlewyrchu bod Dewis 1 yn cynnwys codi llety newydd ac ail fodelu newydd tra bo'r dewisiadau eraill yn cynnwys llai o sgôp ar gyfer gwaith a dim adeiladu llety newydd.

Gwerthoedd Net Presennol

Mae Gwerthoedd Net Presennol yn cael eu cyfrifo o gyfanswm cost y tri dewis dros gyfnod o 30 mlynedd ac yn ystyried y tri phrif eitemau canlynol:

- Cost Cyfalaf Adeiladau/Offer
- Costau Rhedeg Blynyddol
- Cronfa Cynnal a Chadw Blynyddol
- Gwerthoedd Prynu/Cael Gwared â Safle/Gweddilliol

Y Gwerthoedd Net Presennol ar gyfer y tri dewis yw:

Dewis	Enw'r Dewis	Gwerth Net Presennol
Dewis 1	Un ysgol gynradd ar safle Ysgol Tan y Marian	£15,045,250
Dewis 2	Cynnal yr Ysgolion presennol ar y safleoedd sy'n bodoli	£16,182,870
Dewis 3	Un ysgol ar ddau safle sy'n bodoli	£15,304,180

Ffigwr 6 Gwerthoedd Net Presennol

Mae'r ffigyrau GNP yn Ffigwr 6 uchod yn seiliedig yn achos Dewis 1 ar raniad gwariant 50:50 rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod a Dewis 2 a 3, wedi'i ariannu'n gyfan gwbl gan yr Awdurdod.

Ni fydd Dewis 2 a 3 yn cyfarfod y meini prawf ariannu ar gyfer Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd rhesymu stad a lleihau lleoedd sbâr.

Safle GNP:

- 1^{af} - Dewis 1 Un ysgol gynradd ar safle Ysgol Tan y Marian
- 2^{il} - Dewis 3 Cynnal yr ysgolion presennol ar y safleoedd sy'n bodoli
- 3^{ydd} - Dewis 2 Un ysgol gynradd ar y ddau safle sy'n bodoli

Dewis 2 a 3 a chostau fformiwla ariannu uwch yn gysylltiedig â chyfrifo GNP. Mae gan Ddewis 1 y GNP isaf oherwydd bod ganddo anghenion benthyg is.

Mae costau GNP yn uwch ar gyfer Dewis 2 a 3, yn arbennig gwasanaethau, cynnal ac atgyweirio sy'n cael eu defnyddio ar gyfer arwynebedd mewnol gros ar gyfer y ddwy ysgol o 2,067 metr sgwâr o gymharu â 1,199 metr sgwâr ar gyfer yr ysgol wedi'i chyfuno.

Mae'r gronfa wrth gefn a'r gronfa suddo hefyd yn is ar gyfer Dewis 1 o ganlyniad i arwynebedd llawr mewnol gros is.

7.0 Casgliad

Nodwyd tri phrif ddewis yn ystod yr ymgynghoriad a datblygwyd a dadansodwyd hwy ymhellach gyda'r nod o ganfod pa ddewis a fyddai'n trin y briff dechreuol wrth ddarparu safleoedd ac adeiladau addas i'r pwrpas gyda'r gofod ar gyfer nifer y disgyblion a amcanwyd hyd at 2016.

Mae'r tri dewis yn atebion ymarferol a gallai ddarparu adeiladau addas i bwrpas anghenion CMYC.

Fodd bynnag, mae rhai nodweddion allweddol rhwng y dewisiadau fel y manylwyd isod ac mae'r ystyriaethau hyn wedi cyfrannu i'r argymhellion:

Dewis 1 Un Ysgol Gynradd yn Ysgol Tan Y Marian

- GNP – Y dewis â'r gwerth net presennol isaf, tua £259k yn rhatach na Dewis 3 dros gyfnod o 30 mlynedd a £1,137k yn llai na Dewis 2.
- Costau Adeiladu – Y dewis hwn sydd â'r costau adeiladu uchaf ac yn cynnwys adeiladu o'r newydd ac ailfodelu.
- Safle – CBSC yw'r perchen felly nid yw perchnogaeth y tir yn broblem. Gallai unrhyw oedi gyda chael gwared â safle cyn Ysgol Babanod Penmaenrhos effeithio ar y ffrwd ariannu.
- Cynllunio – ni ddylai estyniad bychan fod yn anhawster cynllunio arwyddocaol.
- Tarfu – Y dewis mwyaf cymhleth yn nhermau cam ond gellir rheoli'r effaith trwy ddefnyddio llety newydd dros dro.
- Problemau – dim problemau arwyddocaol ar y cam hwn.
- Newid Strategol – Newid trefniadol o ganlyniad i gyfuno dwy ysgol ar un safle.
- Trawsnewid – Effaith cyfyng ond peth sgôp trwy newidiadau llety a chyfuno ysgolion.
- Matrics - Y sgôr matrics gwerthuso uchaf ond ychydig yn llai na 3% ac yn gyffredinol yn adlewyrchu'r ffaith bod gan y dewis hwn y gwaith adeiladu mwyaf, gan effeithio ar feini prawf risg adeiladu.

Dewis 2 Cynnal yr Ysgolion Presennol ar Safleoedd sy'n Bodoli

- GNP – Y gwerth net presennol uchaf a'r dewis drytaf, tua £1,137k yn fwy na Dewis 1 dros gyfnod o 30 mlynedd.
- Cost Adeiladu - Costau adeiladu yn isel, tua thraean Dewis 1.
- Safle - Mae'r ddau safle'n eiddo i CBSC, felly nid yw perchnogaeth y tir yn broblem.
- Cynllunio – Dim newidiadau allanol arwyddocaol yn cael eu cynnig, felly cyfle cyfyng i broblemau cynllunio.
- Tarfu – Mae'r dewis hwn yn golygu mân ail drefnu gofod a gwaith adeiladu cysylltiedig, felly bydd yr effaith yn fychan.
- Problemau – dim problemau arwyddocaol ar y cam hwn.

- Newid Strategol – Newid trefniadol cyfyng gan fod y strwythur presennol yn cael ei gynnal.
- Trawsnewid – Sgôp cyfyng oherwydd ychydig o waith adeiladu neu ail fodelu llety.
- Matrics - y sgôr matrics isaf, yn gysylltiedig â Dewis 3 gydag arbedion effeithlonrwydd ynni a sgoriau meini prawf dylunio cyfyng iawn gan adlewyrchu effaith gyfyng y gwaith.

Dewis 3 Ysgol Gynradd ar y Ddau Safle sy'n Bodoli

- GNP – Dyma'r dewis sydd a'r gwerth net ail isaf o ychydig dros gyfnod o 30 mlynedd.
- Costau Adeiladu - Mae'r costau adeiladu'n isel, tua thraean Dewis 1 a'r un â Dewis 2.
- Safle - Mae'r ddau safle'n eiddo i CBSC, felly nid yw perchnogaeth yn broblem.
- Cynllunio – Dim newidiadau allanol arwyddocaol yn cael eu cynnig, felly cyfle cyfyng i broblemau cynllunio.
- Tarfu – Mae'r dewis hwn yn golygu mân ail drefnu gofod a gwaith adeiladu cysylltiedig, felly bydd yr effaith yn fychan.
- Problemau – Dim problemau arwyddocaol ar hyn o bryd.
- Newid Strategol – Peth newid trefniadol o ganlyniad i newid i un pennaeth a chorff llywodraethol.
- Trawsnewid – Effaith cyfyng ond peth sgôp trwy newidiadau llety a chyfuno ysgolion.
- Matrics – y sgôr matrics isaf, yn gysylltiedig â Dewis 3 gydag arbedion effeithlonrwydd ynni a sgoriau meini prawf arloesi mewn dylunio cyfyng iawn gan adlewyrchu effaith gyfyng y gwaith.

8.0 Argymhelliad

Ar sail y Matrics Gwerthuso a'r Gwerthusiad Ariannol (GNP), argymhellir yr Awdurdod i fabwysiadu'r strategaeth ganlynol:

Dewis 1 Ysgol Gynradd ar Safle Ysgol Tan y Marian

Mabwysiadu'r dewis hwn fel y dewis arweiniol gan fod ganddo'r sgôr uchaf yn y matrics gwerthusiad dewis a'r gost GNP isaf dros gyfnod o 30 mlynedd.

Mae gan y safle'r hyblygrwydd ar gyfer newid yn y dyfodol ac yn gyffredin â dewisiadau eraill, y potensial ar gyfer gwell effeithlonrwydd ynni pan fydd yr arian ar gael.

Dewis 3 Ysgol Gynradd ar Ddau Safle sy'n bodoli

Mae hyn wedi'i glymu â Dewis 2 yn nhermau sgôr matrices gwerthusi ond â'r gost GNP ail isaf a dylid ei ystyried os nad yw Dewis 1 yn cael ei ddethol am unrhyw reswm.

Mae gan y dewis gostau benthyg uchel fel Dewis 2.

Mae'r dewis hwn yn sgorio'n is na Dewis 2 ar sail costau fformiwla ariannu yn arbennig costau staffio. O'r gwerthusiad adeiladu i bwrpas, nid oes fawr wahaniaeth rhwng y dewis hwn a Dewis 2.

Dewis 2 Cynnal yr Ysgolion Presennol ar y Safleoedd sy'n Bodoli

Mae trydydd dewis a ddymunir a thra ei fod wedi'i glymu â Dewis 3 ar y matrices gwerthuso, o'r tri dewis mae ganddo'r costau GNP uchaf oherwydd y fformiwla ariannu a chostau benthyg.

Yn nhermau gwerthusiad "adeiladau addas i'r pwrpas", mae cynnwys y dewis yr un fath â Dewis 3.

Mae sgôp y gwaith yn gyfyng; felly ni fydd yn denu arian.